

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ward Usk 3/2, Ysbyty Nevill Hall

Dyddiad y gweithgarwch: 21 Ebrill 2021

Dyddiad cyhoeddi: 26 Mai 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward Usk 3/2 fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Ward Usk 3/2 yn cynnwys 28 o welyau ac mae'n darparu gofal i gleifion oedrannus. Agorodd y ward ym mis Tachwedd 2020 fel rhan o Raglen Dyfodol Clinigol y bwrdd iechyd, a chafodd ei defnyddio i ddechrau i ofalu am gleifion yr amheuwyd bod ganddynt COVID-19.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward ac un o'r nyrsys Band 6 ddydd Mercher 21 Ebrill 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod y ward, hyd at fis Chwefror 2021, wedi'i defnyddio i ofalu am gleifion yr amheuwyd bod ganddynt COVID-19, ac mai dim ond newidiadau bach y bu angen eu gwneud i'r amgylchedd. Mae wyth ciwbicl unigol y gellir eu defnyddio i ynysu cleifion os oes angen.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn gyfrifol ac yn atebol am gynnal amgylchedd diogel, a bod archwiliadau ac asesiadau risg rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr. Mae'r rhain yn cynnwys yr enghreifftiau canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt; codi a chario, llithro, baglu a chwympto, trais ac ymddygiad ymosodol, anafiadau a achosir gan offer miniog, alergedd i latecs a darparu gwasanaeth meddygol y tu allan i oriau.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg tân yn cael eu diweddarau bob blwyddyn a bod y swyddog lechyd a Diogelwch yn cwblhau arolygiad diogelwch tân blyneddol. Mae aelodau o'r staff wedi'u dynodi'n Swyddogion Tân y ward, a fyddai'n cydlynu'r ymateb pe bai tân.

Dywedwyd wrthym fod mesurau ar waith i sicrhau bod anghenion a dymuniadau unigol y cleifion yn cael eu hystyried wrth gynllunio eu gofal, gan gydbwysu'r rhagofalon angenrheidiol sydd ar waith yn sgil COVID-19 ar yr un pryd. Cadarnhaodd rheolwr y ward fod prosesau ar waith i reoli penderfyniadau Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR), a bod y staff meddygol yn sicrhau bod dymuniadau'r claf ac aelodau perthnasol o'r teulu yn cael eu ceisio a'u cofnodi.

Dywedwyd wrthym fod y ward yn cyfyngu ar nifer ymweliadau ar hyn o bryd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, er mwyn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19. Fodd bynnag, mae'r staff yn cydnabod effaith hyn ar y cleifion a'u teuluoedd, ac yn gwneud pob ymdrech i gydbwysu'r risgiau ag ystyriaeth o amgylchiadau unigol y cleifion a'u teuluoedd, yn enwedig os bydd cyflwr y claf yn dirywio ac nad oes disgwyl iddo wella. O ganlyniad, caniateir rhai ymweliadau, o dan rai amgylchiadau, wedi'u cyfyngu i aelodau enwebedig o'r teulu a gydag asesiadau risg priodol ar waith. Mae'n ofynnol i ymwelwyr gydymffurfio â'r broses profi ac olrhain.

Dywedwyd wrthym fod gan y bwrdd iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau ar waith, y mae disgwyl i bob aelod o'r staff nyrsio gydymffurfio ag ef, gan sicrhau bod dymuniadau a dewisiadau'r cleifion a, lle y bo'n briodol, eu teuluoedd, yn cael eu clywed ac y gweithredir arnynt lle y bo'n bosibl. Mae archwiliadau Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol hefyd yn cael eu cynnal i gefnogi'r broses hon.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg cleifion unigol yn cael eu cynnal wrth dderbyn cleifion. Yna, caiff y rhain eu diweddarau yn wythnosol, o leiaf, neu os bydd unrhyw newid yng nghyflwr y claf. Mae'r rhain yn cynnwys asesiadau risg rheoli cwympiadau, asesiadau o ganllawiau gwelyau, adnodd sgrinio risg maeth ac asesiadau risg gofal y geg. Cawsom gopi o archwiliad cwympiadau a gwblhawyd ar gyfer mis Mawrth a mis Ebrill. Mae'r archwiliad hwn yn dangos bod systemau llywodraethu ac adrodd da ar waith i reoli'r risg o gwmpo. Hefyd, cawsom ddata archwiliadau a gwblhawyd yn ymwneud ag atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd. Mae'r data hyn hefyd yn dangos bod systemau llywodraethu ac adrodd cadarn ar waith i leihau'r risg o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw achosion a gadarnhawyd o COVID-19 ymhlith y staff na'r grŵp cleifion ar hyn o bryd.

Cawsom gopiau o'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys polisiau a chanllawiau penodol ar gyfer COVID-19. Gwelsom fod y rhain yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf ynghylch COVID-19. Yn ogystal â hyn, mae asesiad risg penodol ar gyfer COVID-19 ar waith i sicrhau bod pob agwedd ar y ward yn cydymffurfio â rheolau cadw pellter cymdeithasol i ddiogelu'r staff, y cleifion a pherthnasau.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr y ward yn dilyn prosesau'r bwrdd iechyd i sicrhau bod archwiliadau atal a rheoli heintiau rheolaidd yn cael eu cynnal. Dywedwyd wrthym hefyd fod archwiliad ward Un Claf Un Diwrnod yn cael ei gynnal. Mae'r archwiliad hwn yn canolbwyntio ar glaf unigol bob dydd, gan edrych ar ymddangosiad cyffredinol y claf, glendid a diogelwch yr amgylchedd, argaeledd PPE, cyflwyniad ac ymddangosiad y staff, adolygiad o nodiadau gofal a dogfennaeth asesiadau allweddol y claf a chrynodeb o farn y claf am ansawdd y gofal

a roddir. Cawsom gopïau o archwiliadau a gwblhawyd ar gyfer mis Chwefror, mis Mawrth a mis Ebrill 2021, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth dda iawn â'r safonau.

O blith y dogfennau a gyflwynwyd, a'n trafodaethau â rheolwr y ward a'r nyrs Band 6, gwelsom y byddai unrhyw glaf sy'n cael diagnosis o glefyd heintus yn cael ei reoli'n briodol.

Dywedwyd wrthym fod y nyrs rheoli heintiau arbenigol yn archwilio'r ward bob tri mis. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o gydymffurfiaeth o ran hylendid dwylo â'r amserlen glanhau, archwilio cyfarpar, e.e. matresi a chomodau, monitro cyfraddau heintiau, cydymffurfiaeth o ran sgrinio am *Staphylococcus Aureus* Ymwrthol i Methisilin (MRSA), a hyfforddiant staff sy'n ymwneud yn benodol â rheoli heintiau. Cawsom gopi o'r archwiliadau hylendid dwylo a gwblhawyd ar gyfer mis Chwefror, mis Mawrth a mis Ebrill 2021, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth dda â'r safonau. Cawsom hefyd gopi o archwiliad rheoli heintiau penodol ar gyfer COVID-19 a gwblhawyd ym mis Ebrill 2021. Roedd yr archwiliad yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella a nodwyd a pha gamau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae hyn yn dangos bod prosesau llywodraethu, adrodd ac uwchgyfeirio cadarn ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â safonau.

Dywedwyd wrthym fod pob achos o haint a ddelir wrth gael gofal iechyd yn cael ei adolygu drwy broses dadansoddi gwraidd y broblem ar gyfer¹ rheoli heintiau. Yna, caiff unrhyw wersi a chatau gweithredu eu rhannu â phob aelod o staff y ward. Byddai unrhyw risgiau newydd a nodwyd sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau yn cael eu huwchgyfeirio at yr uwch-dîm nyrsio, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu, bod camau gweithredu yn cael eu cymryd, a'u bod yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Risg.

Dywedwyd wrthym fod canlyniadau archwiliadau yn cael eu harddangos ar y ward, ar ffurf Croesau Diogelwch², er mwyn i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr eu gweld, a bod dau aelod enwebedig o'r staff sy'n nyrsys cyswllt atal a rheoli heintiau ac yn weithwyr cymorth gofal iechyd.

Dywedwyd wrthym fod arferion glanhau da ar waith a bod amserlenni glanhau dyddiol yn cael eu cwblhau ar gyfer pob ardal glinigol ac anghlinigol, sy'n cael eu harchwilio wedyn gan y nyrs â chyfrifoldeb ar ddiwedd yr wythnos er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Cawsom gopïau o archwiliadau glanhau ar gyfer mis Mawrth a mis Ebrill 2021, a oedd yn dangos cyfraddau cydymffurfiaeth uchel.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod digon o PPE ar gael i'r staff, y cleifion ac ymwelwyr,

¹ Techneg sy'n helpu pobl i nodi pam y digwyddodd y broblem yn y lle cyntaf yw Dadansoddi Gwraidd y Broblem. Ei nod yw nodi gwraidd y broblem gan ddefnyddio cyfres arbennig o gamau, ynghyd ag adnoddau cysylltiedig, er mwyn nodi prif achos y broblem, fel y gallwch benderfynu beth ddigwyddodd, pam y digwyddodd, ac ystyried yr hyn y gallwch ei wneud i leihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto.

² Adnodd casglu data gweledol yw croes diogelwch sy'n cael ei ddefnyddio i nodi meysydd i'w gwella. Calendr ar ffurf croes sy'n cofnodi sawl gwaith y mae mater penodol yn digwydd yw croes diogelwch.

ac y cynhelir archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod lefelau digonol yn cael eu cynnal.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau (megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom gopïau o Gynllun Gweithredol y Bwrdd Iechyd a'r Polisi Ymateb i COVID-19. Gwelwyd bod y rhain yn gynhwysfawr a'u bod yn dangos bod gan y bwrdd iechyd fesurau llywodraethu cryf ar waith i reoli ac adolygu'r pwysau amrywiol ar y gwasanaeth.

Ar sail y trafodaethau a gawsom â rheolwr y ward a'r nyrs Band 6, daeth yn glir bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau a phrosesau uwchgyfeirio ac adrodd y bwrdd iechyd. Dywedodd rheolwr y ward wrthym ei fod yn cael cefnogaeth dda gan yr uwch-nyrsys, a bod cyngor ac arweiniad ar gael yn ôl y gofyn.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr y ward yn sicrhau bod lefelau staffio yn bodloni'r lefelau y cytunwyd arnynt ar gyfer y sefydliad. Caiff hyn ei reoli drwy'r rota iechyd electronig, sy'n cael ei oruchwylio a'i gymeradwyo gan uwch-nyrs hyd at dri mis ymlaen llaw. Mae rheolwr y ward ac uwch-nyrs yn adolygu pob rota 48 awr ymlaen llaw, er mwyn nodi unrhyw ddiffygion a'u rheoli/uwchgyfeirio yn unol â Pholisi Uwchgyfeirio ar gyfer Staff Nyrsio y bwrdd iechyd. Cawsom gopi o'r polisi hwn fel rhan o'r hunanasesiad.

Dywedwyd wrthym fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio weithiau pan fydd staff yn absennol. Dywedwyd wrthym hefyd fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod yr un staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i gyflenwi pan fydd staff yn absennol. Mae hyn yn cynnig lefel o barhad o ran y gofal a roddir ac yn sicrhau bod y staff asiantaeth yn gyfarwydd â chynllun y ward a'i harferion gweithio.

Dywedwyd wrthym fod swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig yn cael eu hysbysebu yn allanol unwaith y mis. Ar adeg yr alwad, dywedwyd wrthym fod 8.48 swydd wag ar gyfer staff nyrsio Band 5 cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, mae pump o'r swyddi hyn wedi cael eu llenwi ac roedd rheolwr y ward yn aros am gadarnhad o ran y dyddiadau dechrau.

Dywedwyd wrthym fod adnodd archwilio Lefelau Gofal Cymru³ yn cael ei ddefnyddio i nodi unrhyw brinder staffio sy'n gysylltiedig â lefelau dibyniaeth cleifion, a'i gofnodi. Dywedwyd wrthym hefyd y gofynnir i'r staff roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau andwyol sy'n gysylltiedig â lefelau staffio ar Datix⁴.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod systemau wedi cael eu cyflwyno i ddarparu cymorth ychwanegol i'r staff yn ystod pandemig COVID-19. Mae hyn yn cynnwys mynediad at wasanaeth iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd, y tîm iechyd a Llesiant, y tîm Gofal Lliniarol, cwnsela a chymorth seicolegol. Hefyd, dywedwyd wrthym fod yr ystafell i deuluoedd ar y ward, ac ystafell y Gaplaniaeth, ar gael i'r staff os bydd angen amser arnynt i ffwrdd o'r ardal glinigol.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu cefnogi o ddydd i ddydd gan reolwr y ward a nyrsys mwy profiadol ar y ward. Yn ogystal â'r cymorth mwy anffurfiol o ddydd i ddydd, dywedwyd wrthym fod Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR) yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cawsom dystiolaeth ddogfennol o gyfraddau cwblhau PADR, sy'n dangos cydymffurfiaeth dda iawn.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cawsom gopi o weithdrefn y bwrdd iechyd er mwyn i staff y GIG godi pryderon, a gwelsom y dylai fod wedi cael ei hadolygu ar 2 Chwefror 2021. Hefyd, cawsom gopi o Bolisi Cleifion sy'n Gwaethygu y bwrdd iechyd, a gwelsom y dylai fod wedi cael ei adolygu ar 2 Mehefin 2020. Hefyd, cawsom gopi o Brothocol Honiadau Diogelu/Pryderon am Ymarferwyr a'r Rhai sydd mewn Swydd o Ymddiriedaeth y bwrdd iechyd, a gwelsom y dylai fod wedi cael ei adolygu ym mis Tachwedd 2020. Rydym yn gwerthfawrogi bod y bwrdd iechyd wedi gorfod blaenoriaethu ei ymateb i bandemig COVID-19 dros agweddau eraill ar y gwasanaeth, ac er y cawsom sicrwydd gan reolwr y ward y byddai pob polisi yn cael ei adolygu maes o law, rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y ffordd y mae'n bwriadu sicrhau bod polisiau, gweithdrefnau a phrotocolau yn cael eu hadolygu a, lle y bo angen, eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ystyried canllawiau, safonau a rheoliadau cyfredol.

Dywedwyd wrthym fod cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol a statudol yn cael ei chofnodi, a bod datblygiad staff yn cael ei hybu a bod cyfleoedd yn cael eu creu mewn perthynas â datblygiad proffesiynol, arweinyddiaeth a sgiliau clinigol. Fodd bynnag, mae gwybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r hunanasesiad yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn isel mewn rhai meysydd, h.y. Diogelwch Tân - 70%, Iechyd a Diogelwch - 70%, Codi a Chario - 60%, Trais ac Ymddygiad Ymosodol - 66.67%, Cydymffurfiaeth

³ Mae Lefelau Gofal Cymru yn cynnwys pum lefel o aciwtedd yn amrywio o: lefel 5 lle mae'r claf yn ansefydlog iawn ac yn wynebu risg, gan olygu bod angen lefel ddwys o ofal nyrsio un i un parhaus arno, i lawr i lefel 1, lle mae cyflwr y claf yn sefydlog ac yn rhagfynegadwy, a lle mae angen gofal nyrsio arferol arno.

⁴ Datix yw'r system ar gyfer cofnodi digwyddiadau clinigol neu achosion a fu bron â digwydd. Mae'n golygu bod modd rhannu manylion y digwyddiadau; nodi diffygion yn y system, newid arferion a hailhyfforddi staff lle y bo angen. Mae Datix yn galluogi digwyddiadau i gael eu cofnodi mewn amser real, gan leihau'r oedi sy'n gysylltiedig â systemau papur.

COVID-19 50%. Esboniodd rheolwr y ward fod y cyfraddau cwblhau yn isel yn y meysydd hyn am fod y staff wedi cael trafferth cael gafael ar y modiwlau hyfforddiant ar-lein.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ym mhob maes gorfodol fel blaenoriaeth.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Nevill Hall

Ward: Usk 3/2

Dyddiad y gweithgarwch: 21 Ebrill 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y ffordd y mae'n bwriadu sicrhau bod polisiau, gweithdrefnau a phrotocolau yn cael eu hadolygu a, lle y bo angen, eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ystyried canllawiau, safonau a rheoliadau cyfredol.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch 2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol 5.1 Gofal Amserol 6.3 Gwrandao a Dysgu o Adborth	- Nodi polisiau y mae angen eu hadolygu - blaenoriaethu ar sail y polisiau sy'n effeithio ar ddiogelwch a phrofiad y cleifion a'r staff. - Wedi ymgysylltu ag awdur/uwch-reolwr - i ddechrau'r broses adolygu ar gyfer y polisiau "a berchenogir". - Cynllun cyfathrebu - mae cynllun yn cael ei ddatblygu i hysbysu'r staff ac adrannau, gan gynnwys defnyddio mewnwyd y Bwrdd Iechyd ac ymgysylltu ag adrannau yn uniongyrchol.	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol - Risg a Sicrwydd	Ar waith Awst 2021

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			- Cryfhau'r cyfathrebu ag adrannau er mwyn sicrhau bod polisïau yn ffocws allweddol yn parhau i fod yn ffocws allweddol - Cofrestr Polisi - Archwilio system rheoli gwybodaeth er mwyn helpu prosesau rheoli yn y dyfodol mewn modd rhagweithiol. O ran y tri pholisi y nodwyd bod angen eu hadolygu, Gweithdrefn er mwyn i Staff y GIG Godi Pryderon - polisi Cymru gyfan a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd; rhoddwyd gwybod i'r adran Adnoddau Dynol rhag ofn ei bod am godi hyn ar lefel genedlaethol. Polisi Cleifion sy'n Gwaethygu - wrthi'n cael ei adolygu a chaiff ei gymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Polisi a Safonau Clinigol ym mis Gorffennaf. Protocol Honiadau Diogelu/Pryderon am Ymarferwyr a'r Rhai sydd mewn Swydd o Ymddiriedaeth - wrthi'n cael ei adolygu gan Fwrdd Diogelu Gwent. Mae'r Protocol Rhanbarthol wrthi'n cael ei ddiweddararu ac mae'r Pennaeth Diogelu yn cadeirio'r grŵp gorchwyl a gorffen sy'n gyfrifol		

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			am y gwaith hwn. Mae'r cynnwys fwy neu lai wedi'i gwblhau ond mae diweddariad cenedlaethol yn mynd rhagddo hefyd, felly rydym yn aros am ddiweddariad o ran yr amserlenni ar gyfer y gwaith cenedlaethol hwn. Os oes unrhyw oedi yn debygol, caiff y Canllawiau Rhanbarthol eu cyhoeddi cyn y diweddariad cenedlaethol.		
Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
2	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ym mhob maes gorfodol.	7.1 Y Gweithlu	- Ffocws misol i gynyddu cydymffurfiaeth - Cydymffurfiaeth wedi cynyddu >85% mewn tri mis.	Uwch-nyrs/Prif nyrs y ward	Awst 2021 Diweddariad - 11/05/21 Cydymffurfiaeth gyfredol y ward yw 74.7%

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Penny Gordon, Pennaeth Nyrsio

Dyddiad: 7/5/21